

Digimap for Schools

Achub Brys

Achub mynydd

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth

Uwchradd



This is one of a series of teaching resources for use with Digimap for Schools. For more details about this service, visit <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

Adnoddau Daeryddiaeth Digimap for Schools

Teitl

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Uwchradd	Achub mynydd	Helm Crag, Ardal y Llynnoedd

Gwybodaeth	Gan ddefnyddio cyfeirnodau grid chwe ffigur. Ychwanegu labeli a marciwr. Cynllunio teithiau.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Disgrifiwch a deallwch agweddau allweddol daeryddiaeth ffisegol fel mynyddoedd. Defnyddiwch wyth pwynt cwmpawd, cyfeirnodau grid pedwar a chwe ffigur, symbolau ac allwedd (gan gynnwys y defnydd o fapiau Arolwg Ordnans) i adeiladu gwybodaeth am y Deyrnas Unedig.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Adnabyddwch a lleolwch leoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau a mapiau, er enghraifft, defnyddiwch gyfesurynnau a chyfeirnodau pedwar ffigur.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 2-12a, 2-13a, 2-14a.

Gweithgaredd

Mynd i'r afael â rôl tîm Achub Mynydd i leoli a chyrraedd rhywun sydd mewn trafferth yn Ardal y Llynnoedd, Cumbria. Dod o hyd i'w hunion leoliad a dewis llwybr effeithiol i'w cyrraedd fel y gellir dod â nhw i rywle diogel. Gweler y PowerPoint.

Cyflwyniad

Mae tîm Achub Mynydd Langdale/Ambleside (LAMRT) yn gweithredu mewn rhannau o ganol Ardal y Llynnoedd, ardal fynydd brysuraf Prydain. Maent yn ymdrin â dros 100 o ddigwyddiadau bob blwyddyn ac maen nhw'n dîm ymroddedig sy'n cyllido'u hunain o 'wirfoddolwyr proffesiynol' o bob math. Mae angen i dimau achub mynydd wybod sut i ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans mewn manylder mawr oherwydd pan fydd argyfwng mae angen iddyn nhw allu lleoli'r digwyddiad yn gyflym a chydlynu achub diogel yn yr amser cyflymaf posibl.

Prif weithgaredd

Cyflwyno gwaith tîm Achub Mynydd fel LAMRT a'r hyn y maen nhw'n ei wneud. Eglurwch fod y dosbarth yn mynd i ymgymryd â'r her o gydlynu gwaith achub fel LAMRT. Mae hyn yn cynnwys defnyddio sgiliau map er mwyn adnabod yn gyflym ble mae dringwr sydd wedi ei anafu a sut i'w achub. Gellir gwneud y gweithgaredd mewn grwpiau bach neu barau.

Digimap for Schools

Mynd gam ymhellach

- Gweithiwch mewn grwpiau er mwyn chwarae rôl cyfweiliadau newyddion sy'n cael eu 'darlledu' ynglŷn â'r gwaith achub gydag un aelod o'r grŵp yn actio'r cyfweilydd, un yn actio'r dioddefwr a'r lleill yn aelodau o'r tîm Achub Mynydd. Eglurwch amodau'r tywydd ar y pryd a'r dirwedd a'r peryglon cysylltiedig.
- Pa fath o berson sy'n gwirfoddoli ar gyfer tim Achub Mynydd? Archwiliwch wefan LAMRT a dod o hyd i wybodaeth am y bobl sy'n rhoi eu hamser i fod yn rhan o'r tim, y cerbydau y maent yn eu defnyddio a'r math o offer sydd ei angen arnynt. Pa fath o sgiliau sydd eu hangen ar bobl sy'n gwneud gwaith Achub Mynydd? Ysgrifennwch hysbyseb i gael mwy o aelodau.
- Eglurwch pam a sut y dylai pobl baratoi cyn mynd ar deithiau cerdded a dringo mewn ardaloedd mynyddig ac, yn benodol, pa mor bwysig yw hi i gario mapiau a chwmpawd. Pam fod adroddiadau tywydd mor bwysig? Ysgrifennwch restr o syniadau ar gyfer cadw'n ddiogel wrth fynd i gerdded a dringo.
- Chwiliwch am wybodaeth i weld a yw ffonau gyda GPS bob amser yn ddibynadwy.

Dolenni ar y we

LAMRT <http://www.lamrt.org.uk>

Sefydliad Achub Mynydd <http://www.mountain.rescue.org.uk/mountain-advice>

Gwylwch ffilm fer am achub bywyd gyda hofrennydd
<http://www.bbc.co.uk/britainfromabove/stories/roughcuts/mountainrescue.shtml>

Grid Cenedlaethol <https://www.ordnancesurvey.co.uk/resources/maps-and-geographic-resources/the-national-grid.html>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2016

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol Creative Commons Attribution



Digimap for Schools



Ordnance
Survey

D10877_primary v1.1 Jul 2016

EDINA

Digimap for Schools

Y digwyddiad – Gweithgaredd

Mae adroddiad wedi ein cyrraedd bod menyw wedi llithro ar dir gwlyb iawn ac mae'n edrych yn debygol ei bod hi wedi torri gwaelod ei choes. Efallai y bydd angen ei thrin yn y fan a'r lle ac efallai ei symud oddi yno gan ambiwlans awyr. Cyfeirnod Grid: NY328088. Eich cyfeiriad pencadlys yw Low Fold, 1 Old Lake Road, Ambleside, Cumbria LA22 0DN.

Eich tasg: lleoli lleoliad y person sydd wedi ei hanafu ar fap, cynllunio'r llwybr gorau i'w chyrraedd ar y ffordd ac ar droed a rhoi cyfarwyddiadau. Crëwch fap sy'n dangos eich pencadlys a lleoliad y person sydd wedi ei hanafu a chrëwch un arall ar raddfa fwy sy'n dangos y dirwedd o'r ffordd agosaf i'r dioddefwr.

Tasgau

- 1 Agorwch Digimap for Schools. Defnyddiwch y blwch Search (Chwilio) i ddod o hyd i'ch lleoliad yn union drwy nodi'r cod post LA22 0DN. Chwyddwch y sgrin i'r raddfa fwyaf. Nodwch farciwr yn fan hyn. Agorwch yr offer Annotation (Nodiadau), cliciwch ar 'Add Marker' (Ychwanegu marciwr) a chliciwch ar y map. Mae'r cod post yn dangos yr ardal gyffredinol felly bydd rhaid i chi chwilio'r map ar y am y 'Ganolfan Achub Mynydd'. Gosodwch label wrth ochr hwn, sy'n dweud 'Canolfan AM'.
- 2 Rhowch y Cyfeirnod Grid: **NY328088** yn y blwch search (chwilio). Ychwanegwch y grid at y map



drwy glicio . Pellhewch un lefel fel y gallwch weld y rhifau ar y grid.

- 3 Dewch o hyd i'r dwyreiniad sy'n dweud 32.

Cofiwch y dywediad sy'n help i chi gofio beth sy'n dod gyntaf mewn Cyfeirnod Grid - ar hyd y coridor (chwith i'r dde neu mewn cyfeiriad dwyreiniol ar gyfer dwyreiniad) ac i fyny'r grisiau (gwaelod i'r top mewn cyfeiriad gogleddol ar gyfer gogleddiadau).

Mae pob sgwâr grid yn cyfateb i 1km sgwâr felly bydd y trydydd rhif (yr 8) yn cynrychioli 8 degfed o gilometr i mewn i'r sgwâr.

Cofiwch y dywediad i'ch helpu chi i gofio beth sy'n dod gyntaf mewn Cyfeirnod Grid - ar hyd y coridor (chwith i'r dde neu mewn cyfeiriad dwyreiniol ar gyfer dwyreiniad) ac i fyny'r grisiau (gwaelod i'r top mewn cyfeiriad gogleddol ar gyfer gogleddiadau)

Digimap for Schools



- 4 Nawr mae'n rhaid i chi ddod o hyd i'r gogleddiadau. Ail set y ffigurau yn y Cyfeirnod Grid yw 088. Felly mae'n rhaid i chi ddod o hyd i'r gogleddiad 08 a mynd i fyny 8/10 km. Gollyngwch farciwr ar y map ar y pwynt hwn a gwiriwch eich bod yn gywir trwy ddefnyddio'r offer Cyfeirnod Grid.
- 5 Cliciwch nesaf at y marciwr ac ychwanegu testun i ddweud 'Pwynt Achub'.
- 6 Pellhewch tan eich bod yn gallu llwyddo i osod y ddau farciwr ar y map.
- 7 Bydd y tim achub yn teithio mewn Landrover mor bell â phosibl. Chwyddwch at y man achub a chwiliwch i weld pa ffordd y dylen nhw ei chymryd o Grasmere, er mwyn mynd mor agos â phosibl ar y dioddefwr. (Gall Landrover deithio ar draciau, ond ddim llwybrau)
- 8 Defnyddiwch 'draw a line' (tynnwch linell) er mwyn penderfynu pa ffordd yr ydych yn credu fydd orau ar gyfer mynd ar droed at y dioddefwr. Mesurwch eich llwybr. Ddylen nhw ddefnyddio'r llwybrau gymaint â phosibl neu gymryd ffordd fwy uniongyrchol. Edrychwch ar y delweddau o'r awyr er mwyn eich helpu i benderfynu pa ffordd cyflym allai fod yn ddiogel.
- 9 Pa mor hir ydych chi'n credu y gwnaiff hi gymryd iddyn nhw deithio'n gyfangwbl o'r Ganolfan Achub Mynydd at y dioddefwr?

Y stori go iawn: gan *Nick Owen, Arweinydd Tim, Langdale/Ambleside MRT*

Ffoniodd y fenyw 999 a dweud wrth yr heddlu, a ddywedodd wrthon ni (y ffordd arferol o alw achub mynydd). Cafodd ein tim ei hysbysu 10 munud fwy neu lai cyn yr hofrennydd, gan gyrraedd y fenyw mewn rhyw 2 neu 3 munud cyn i'r hofrennydd lanio. Cafodd y gwasanaeth ambiwlans hefyd ei hysbysu gan yr heddlu. Anfonon nhw ambiwlans awyr o Penrith. Doedd y fenyw ddim yn gallu rhoi cyfeirnod grid, ond roedd hi'n gallu rhoi disgrifiad da o'i lleoliad, a defnyddion ni wybodaeth leol a mapiau wedyn er mwyn dod o hyd i'r lle.